Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – y goblygiadau i Gymru

Tachwedd 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddMADY**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMADY@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddMADY**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – y goblygiadau i Gymru

Tachwedd 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**David Rees AC**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru



**Huw Irranca-Davies AC**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AC**
Plaid Cymru



**Mandy Jones AC**
Plaid Brexit



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a chasgliadau** .......... **7**

**1. Rhagarweiniad** .......... **12**

Y Cefndir .......... 12

Casglu tystiolaeth .......... 13

Nodyn byr ar yr adroddiad hwn .......... 14

**2. Y polisi mewnfudo ar ôl Brexit** .......... **18**

System fewnfudo bresennol y DU .......... 18

Cynigion ar gyfer system fewnfudo ar ôl Brexit .......... 19

Newidiadau i Haen 2 .......... 19

Y trothwy cyflog o £30,000 .......... 21

Adroddiad "Mudo yng Nghymru" .......... 23

Barn Llywodraeth Cymru .......... 23

Ein barn ni .......... 24

Goblygiadau ehangach y newidiadau arfaethedig .......... 25

Cost .......... 27

Effaith ansicrwydd a risg "dim cytundeb" .......... 27

Ein barn ni .......... 29

Materion eraill sy'n benodol i sectorau .......... 30

Y celfyddydau .......... 30

Addysg bellach ac uwch .......... 30

Iechyd, gofal cymdeithasol a rheoleiddio meddygol .......... 31

Ein barn ni .......... 32

**3. Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a dyfodol dinasyddion yr UE yng Nghymru** .......... **36**

Y Cefndir .......... 36

Profiadau personol mewn perthynas â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE .......... 37

Ein barn ni .......... 38
Materion yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Preswylio .......... 39
Digidol yn unig .......... 40
Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru .......... 40
Ein barn ni .......... 41
Cyngor, cymorth a chyfathrebu .......... 42
Barn Llywodraeth Cymru .......... 44
Ein barn ni .......... 45

**4. Yr effaith ar draws cenhedloedd a rhanbarthau – a oes achos dros fewnfudo rhanbarthol? .......... 50**

Y Cefndir .......... 50
Demograffeg .......... 51
Effaith economaidd ehangach bosibl .......... 51
Dadleuon ynghylch dulliau gwahanol i ardaloedd gwahanol .......... 53
Rhestr Galwedigaethau â Phrinder .......... 55
Barn Llywodraeth Cymru .......... 57
Ein barn ni .......... 57

**Atodiad A .......... 59**

Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - sesiwn dystiolaeth lafar 13 Mai 2019 .......... 59

**Atodiad B .......... 60**

Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - ymatebwyr i'r ymgynghoriad .......... 60

**Atodiad C .......... 61**

Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - sesiwn grŵp ffocws .......... 61

# Rhagair y Cadeirydd

Mae pedwar rhyddid yr Undeb Ewropeaidd – nwyddau, cyfalaf, gwasanaethau a phobl – wedi bod yn gonglfaen i'r farchnad sengl a'n haelodaeth o'r UE. Dros y degawdau diwethaf, mae rhyddid pobl i symud wedi caniatáu i lawer o bobl ddod i Gymru ac ymgartrefu yma, tra bo'r daith y ffordd arall wedi'i gwneud hefyd gan lawer iawn o bobl sydd wedi gadael Cymru i fyw, gweithio ac astudio mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Heb os, mae'r llif hwn o bobl, rhwng Cymru a gweddill Ewrop ac i'r gwrthwyneb, wedi cyfoethogi ein cymunedau ar hyd a lled y wlad. Fodd bynnag, unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE, mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn glir y bydd rhyddid pobl i symud yn dod i ben.

Yng ngoleuni'r newid hwn sydd ar y gorwel dyma benderfynu archwilio beth fyddai'r goblygiadau i Gymru yn sgil y newidiadau i ryddid symud ar ôl Brexit. Canolbwyntiodd ein gwaith ar dri maes eang – y cynigion ar gyfer system fewnfudo yn y dyfodol, gweithredu'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a'r dadleuon dros amrywio'r dulliau mewnfudo yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU ar ôl Brexit.

Mae ein canfyddiadau yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle byddem yn gofyn i Lywodraeth y DU adolygu ei chynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer system fewnfudo ar ôl Brexit, gan gynnwys gostwng y trothwy cyflog o £30,000, ac adolygu effaith bosibl y cynigion ar gydraddoldeb.

O ran y Cynllun Preswylio, clywsom nifer o bryderon ynghylch ei weithrediad, gan gynnwys lefelau isel o gofrestru yng Nghymru, pryderon ynghylch agweddau 'digidol yn unig' y Cynllun, a phryderon am yr ymwybyddiaeth gyffredinol o sut a ble i gael gafael ar gyngor a chymorth.

Yn olaf, wrth archwilio'r achos dros amrywiadau rhanbarthol i bolisi mewnfudo ar draws gwledydd y DU ar ôl Brexit, clywsom fod anghenion penodol economi Cymru, ynghyd â newidiadau demograffig yn y dyfodol, yn golygu y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol ar ôl Brexit.

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn, clywsom gan academyddion, ystod o randdeiliaid yn cynrychioli busnesau, cyrff sector cyhoeddus ac elusennau, a chynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda dinasyddion o genhedloedd eraill o fewn yr UE.

Rwyf am ddiolch, yn benodol, i'r rhai a gyfrannodd at ein grwpiau ffocws. Cefais fy nharo gan y dystiolaeth rymus ac emosiynol a glywsom yn ystod y sesiynau hynny am y modd y mae Brexit yn dreth arnyn nhw, eu ffrindiau ac aelodau eu teulu. Rwy’n gresynu’n fawr at y caledi sy’n wynebu rhai o’n cyd-ddinasyddion yn sgil Brexit. Credaf ei bod yn ddyletswydd ar bob gwleidydd i ystyried yr effeithiau niweidiol y mae’r rhethreg a'r iaith a ddefnyddir yng nghyd-destun mewnfudo yn ei chael ar ein cyd-ddinasyddion. Efallai mai dyna neges bwysicaf oll yr adroddiad hwn.

Diolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

# Argymhellion a chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddi i sicrhau bod y trothwy cyflog arfaethedig o £30,000 yn cael ei ostwng er mwyn adlewyrchu cyd-destun Cymru yn well mewn unrhyw system fewnfudo ar ôl Brexit. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu pwynt gwybodaeth canolog ar bolisi mewnfudo lle mae modd i bob sector datganoledig gael gwybodaeth awdurdodol mewn perthynas â'r newidiadau posibl i ryddid i symud ar ôl Brexit, a'i bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei hymdrechion yn y maes yn ei hymateb i'r adroddiad hwn. .......... Tudalen 30

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar gydweithredu ym maes y celfyddydau yn y dyfodol ar ôl Brexit, gan gynnwys cytuno ar gytundebau cydweithredol newydd rhwng y DU a'r UE;
- pa drafodaethau y mae'n eu cael am rôl y DU yn y rhaglen Erasmus+ yn y dyfodol, ac unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael ar gyfer cynllun olynol;
- pa drafodaethau y mae'n eu cael am roi cydnabyddiaeth gilyddol i gymwysterau addysg feddygol a hyfforddiant. .......... Tudalen 33

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol i gymryd i ystyriaeth yr heriau newydd i gydlyniant cymunedol yng Nghymru. .......... Tudalen 38

**Argymhelliad 5.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon, fel y nodir yn ein casgliadau, wrth Swyddfa Gartref y DU, a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am ei hymdrechion yn hynny o beth. .......... Tudalen 42

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain yn gryfach trwy ddyblu ei hymdrechion i roi cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Ffordd bosibl o gyflawni hyn fyddai cyflwyno cynllun cyfathrebu diwygiedig, sy'n cynnwys negeseuon allweddol ac sydd i'w ledaenu trwy wasanaethau cyhoeddus ee byrddau iechyd lleol, ysgolion a llywodraeth leol. .......... Tudalen 45

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ei neges o gymorth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru. ........................................ Tudalen 45

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau y mae wedi'u darparu i sefydliadau partner trwy Gronfa Bontio'r UE i sicrhau eu bod yn ddigonol i helpu grwpiau agored i niwed, ac eraill, wneud cais i'r Cynllun Preswylio. ........................................ Tudalen 45

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith archwilio ar bolisi mewnfudo sy'n gweithredu'n wahanol mewn ardaloedd gwahanol ar ôl Brexit, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. ........................................ Tudalen 58

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar y tueddiadau demograffig yn y dyfodol, sy'n cymryd i ystyriaeth lefelau is o ymfudo, a'i effaith bosibl ar economi Cymru. ........................................ Tudalen 58

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sefydlu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder ar gyfer Cymru, y gall Llywodraeth Cymru ei diwygio yn unol ag anghenion Cymru. ........................................ Tudalen 58

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, wrth ymateb i'r adroddiad hwn, a yw wedi cynnal adolygiad i benderfynu sut y byddai Rhestr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru yn ystyried rhai o anghenion penodol Cymru. ........................................ Tudalen 58

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno na fydd trothwy cyflog ar y lefel hon yn diwallu anghenion, gofynion nac economi Cymru. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth y DU i ostwng y gofynion o ran y trothwy cyflog mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol. ........................................ Tudalen 24

**Casgliad 2.** Clywsom farn glir hefyd nad yw'r Papur Gwyn presennol yn rhoi digon o sylw i effaith y cynigion ar gydraddoldeb. Credwn ei bod yn bwysig bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei wneud i gydfynd ag unrhyw gynigion diwygiedig ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i ymrwymo i hyn. ........................................ Tudalen 25

**Casgliad 3.** Rydym wedi cael tystiolaeth sy'n mynegi pryderon am y diffyg gwybodaeth ac ansicrwydd mewn perthynas â'r newidiadau i'r reolau rhyddid i symud ar ôl Brexit. Nodwn fod hyn yn cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd ac ar allu rhanddeiliaid i gynllunio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer amrywiol senarios

Brexit. Rydym yn annog mwy o eglurder a sicrwydd gan Lywodraeth y DU. ........ Tudalen 29

**Casgliad 4.** Rydym o'r farn bod rhinweddau clir i addasu'r Cynllun Preswylio i sicrhau bod cofnod swyddogol yn cael ei ddarparu, ar bapur, o statws "sefydlog" a "chyn-sefydlog". ........ Tudalen 42

**Casgliad 5.** Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU wneud asesiad brys i weld a oes angen ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswylio, a sut i gofrestru ........ Tudalen 46





# Pennod 1:

# Rhagarweiniad

Bydd ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio'n sylweddol ar ryddid pobl i symud. Er ein bod wedi ystyried y mater hwn lawer gwaith fel rhan o feysydd gwaith ehangach, dyma'r adroddiad cyntaf i ganolbwyntio'n llwyr ar y newidiadau posibl i ryddid pobl i symud ar ôl Brexit.

# 1. Rhagarweiniad

Bydd ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio'n sylweddol ar ryddid pobl i symud. Er ein bod wedi ystyried y mater hwn lawer gwaith fel rhan o feysydd gwaith ehangach, dyma'r adroddiad cyntaf i ganolbwyntio'n llwyr ar y newidiadau posibl i ryddid pobl i symud ar ôl Brexit.

## Y Cefndir

**1.** Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl", sy'n amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar reolau rhyddid i symud yn y dyfodol ar ôl Brexit.[1]

**2.** Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU, dan Theresa May, ei Phapur Gwyn ar bolisi mewnfudo yn y dyfodol o'r enw: "The UK's future skills-based immigration". Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgynghori ar y Papur Gwyn hwn am flwyddyn.

**3.** Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru waith ymchwil, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ar "**Mudo yng Nghymru: Effaith newidiadau polisi ôl-Brexit**". Roedd y papur hwn yn archwilio'r effeithiau penodol y gallai cynigion y Papur Gwyn eu cael ar Gymru. Yna gwahoddwyd awdur yr adroddiad i sesiwn cyflwyno'r cefndir, fel yr amlinellir yn yr adran isod.

**4.** Ym mis Gorffennaf 2019, etholwyd Boris Johnson AS yn Brif Weinidog a chyhoeddodd yn fuan wedyn bod gwelliannau ar y gweill i gynlluniau'r llywodraeth flaenorol ar gyfer system fewnfudo newydd.[2] Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC) wedi cael y dasg o ddatblygu cynlluniau ar gyfer system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau yn null Awstralia, ond nid yw'n glir eto beth mae hyn yn ei olygu.

[1] Sylwch fod y cyfeiriadau at "ryddid i symud" yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu pobl i symud yn rhydd (yn hytrach na 'Phedwar Rhyddid yr Undeb Ewropeaidd')

[2] Llywodraeth EM, "EU citizens and freedom of movement,". 19 Awst 2019

## Casglu tystiolaeth

**5.** Ar 13 Mai 2019, fe wnaethon ni gynnal sesiwn cyflwyno'r cefndir gydag academyddion i ddeall y sefyllfa'n well o ran polisi. Maes o law, fe wnaethon ni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a ddenodd 14 o ymatebion.

**6.** Roedd ein hymgynghoriad yn canolbwyntio ar y cynigion a gynhwysir yn y Papur Gwyn, a hefyd y modd y mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn gweithio. Yn benodol, gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r rhanddeiliaid:

- Beth yw eich asesiad o'r goblygiadau i Gymru yn deillio o gynigion Papur Gwyn Llywodraeth y DU ynghylch mewnfudo ar ôl Brexit?
- A oes dadl dros ganiatáu i'r gwledydd datganoledig wneud pethau'n wahanol mewn perthynas â pholisi mewnfudo ar ôl Brexit?
- Beth yw eich barn ar y cynnig i gael Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL) sy'n benodol i Gymru?
- Beth yw eich barn ar y cynnig i ymestyn Haen 2 i gynnwys dinasyddion yr UE, a rhoi'r gorau i unrhyw wahaniaethu rhwng gweithwyr yr UE a gweithwyr nad ydynt yn rhan o'r UE?
- Beth yw eich barn ar y trothwy cyflog o £30,000 ar gyfer mewnfudo yng nghyd-destun Haen 2 a'i oblygiadau i Gymru?
- Pa mor hwylus yw'r broses o weithredu'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE? A oes mwy y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod gwladolion yr UE sy'n byw yng Nghymru yn cofrestru o dan y cynllun?
- A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â pholisi mewnfudo ar ôl Brexit yr hoffech eu dwyn i sylw'r Pwyllgor?

**7.** Dros yr haf, buom hefyd yn cynnal trafodaethau fforwm ar y platfform ar-lein, Loomio.

**8.** Mae rhestr o'r unigolion a'r sefydliadau a roddodd dystiolaeth yn Atodiad A.

**9.** Roedden ni hefyd eisiau clywed gan y rhai y mae Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw. Ar 30 Medi 2019, fe wnaethon ni gynnal grwpiau ffocws yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys

dinasyddion yr UE[3] yr effeithir yn uniongyrchol arnyn nhw gan newidiadau posibl i'r reolau rhyddid i symud ar ôl Brexit, ac unigolion sy'n gweithio i sefydliadau ac elusennau sy'n eu cynrychioli.

**10.** Cyhoeddwyd crynodeb o'r trafodaethau hynny ar 25 Hydref 2019. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad, ac i gyfranogwyr y grŵp ffocws am roi eu tystiolaeth bersonol i ni.

## Nodyn byr ar yr adroddiad hwn

**11.** Er bod Cenedligrwydd a Mewnfudo (gan gynnwys rhyddid pobl i symud) yn faterion a gadwyd yn ôl o dan Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan nifer o'r problemau a godir gan y mater hwn gysylltiad â'r setliad datganoledig. At hynny, mae nifer o gynigion penodol i Gymru ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ac yn y ddadl bolisi ehangach sy'n haeddu ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor hwn a'r Cynulliad.

**12.** Paratowyd yr adroddiad hwn mewn sefyllfa bolisi hynod ansicr, gyda ffurf derfynol Brexit yn dal yn annelwig. Rydyn ni'n cydnabod y gallai fod angen ystyried rhai o'n canfyddiadau a'n hargymhellion yn y cyd-destun hwn. Bwriad ein canfyddiadau yw cyflwyno ein safbwynt gychwynnol am y newidiadau i ryddid i symud yn y dyfodol, fel y'u mynegwyd i ni yn y dystiolaeth a gawsom.

**13.** Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod llawer o'n pryderon yn canolbwyntio ar feysydd polisi sy'n gyfrifoldeb llwyr i Lywodraeth y DU. Ar yr un pryd, mae'n ddyletswydd arnon ni i gynrychioli buddiannau pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr effaith ar ardaloedd heb eu datganoli yn cael eu hadlewyrchu ym mholisi'r DU. Felly rydyn ni wedi nodi nifer o gasgliadau (yn ychwanegol at yr argymhellion i Lywodraeth Cymru) lle mae angen gweithredu ar lefel y DU, ac rydyn ni'n disgwyl i Lywodraeth y DU eu hystyried yn drwyadl.

**14.** Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau yn y maes hwn ac rydyn ni'n debygol o ailedrych ar rai o'r materion a'r themâu yn ddiweddarach pan ddaw'r sefyllfa polisi yn gliriach.

[3] Yn y cyd-destun hwn mae unrhyw gyfeiriad at ddinasyddion yr UE yn golygu dinasyddion o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru a'r DU.


DOWNING
STREET SW1
CITY OF WESTMINSTER



# Pennod 2:

# Strategaeth cysylltiadau rhyngwladol newydd i Gymru

Mae ymadael â'r UE yn arwain at rai o'r newidiadau mwyaf i bolisi mewnfudo'r DU ers degawdau. Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU y bydd y rhyddid i symud rhwng y DU a'r UE, ac i'r gwrthwyneb, yn newid.

# 2. Y polisi mewnfudo ar ôl Brexit

Mae ymadael â'r UE yn arwain at rai o'r newidiadau mwyaf i bolisi mewnfudo'r DU ers degawdau. Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU y bydd y rhyddid i symud rhwng y DU a'r UE, ac i'r gwrthwyneb, yn newid.

## System fewnfudo bresennol y DU

**15.** Ar hyn o bryd, mae dwy system fewnfudo ar wahân yn y DU: y naill i ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir, (er hwylustod, cyfeirir at y rhain i gyd fel "dinasyddion yr UE"), a'r llall i wladolion nad ydyn nhw o'r UE.

**16.** Ar hyn o bryd, mae gan ddinasyddion yr UE yr hawl i fyw a gweithio yn y DU am hyd at dri mis heb fod yn ddarostyngedig i amodau. Ar ôl tri mis, mae ganddyn nhw hawl i breswylio os ydyn nhw'n weithwyr, yn chwilio am waith yn y DU neu os oes ganddyn nhw ddigon o adnoddau i breswylio.

**17.** I ddinasyddion nad ydyn nhw o'r UE, mae fisâu gwaith gwahanol ar gael at ddibenion gwahanol. Mae'r mwyafrif o fisâu gwaith yn rhan o "system yn seiliedig ar bwyntiau" y DU. Mae gan y system bum haen, pob un ag is-gategorïau:

- Haen 1 ar gyfer unigolion medrus iawn;
- Haen 2 ar gyfer gweithwyr medrus sydd â chynnig swydd i lenwi bylchau yn y gweithlu (mae hyn yn cynnwys trothwy o £30,000 o gyflog ac mae wedi'i gyfyngu i weithwyr â sgiliau uwch);
- Haen 3 i weithwyr â sgiliau isel i lenwi prinder llafur dros dro (ni ddefnyddiwyd yr haen hon erioed gan y tybir ar hyn o bryd bod y bylchau'n cael eu llenwi gan wladolion yr UE);
- Haen 4 i fyfyrwyr, a
- Haen 5 ar gyfer gweithwyr dros dro a phobl ifanc sy'n dod o dan y Cynllun Symudedd Ieuenctid.

**18.** Haen 2 (Cyffredinol) yw'r prif gategori fisa ar gyfer dod â gweithwyr medrus o'r tu allan i'r UE i'r DU. Mae wedi'i gapio ar 20,700 o fisâu y flwyddyn ers 2017. Cafodd meddygon a nyrsys eu heithrio o'r cap yn 2018.

## Cynigion ar gyfer system fewnfudo ar ôl Brexit

**19.** Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU, o dan Theresa May AS, ei Phapur Gwyn ar fewnfudo[4] ym mis Rhagfyr 2018, gyda chyfnod ymgynghori o 12 mis.

**20.** Cafodd y Papur Gwyn hwn ei lywio gan argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC).[5]

**21.** Roedd Papur Gwyn y Llywodraeth flaenorol yn cynnig y canlynol:

- ychwanegu dinasyddion yr UE yn uniongyrchol at y system bwyntiau bresennol o dan Haen 2 ar gyfer gweithwyr medrus sydd â chynigion swydd, heb unrhyw driniaeth ffafriol o gymharu â gweithwyr nad ydyn nhw o'r UE;
- ehangu Haen 2 trwy: gael gwared ar y cyfyngiad fisa o 20,700 a'r prawf marchnad lafur breswyl; gostwng y trothwy sgiliau i RQF+ lefel 3 (Safon Uwch neu gyfwerth); cadw trothwy cyflog (ond ymgynghori ar y £30,000 presennol), ac ystyried Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL) ar gyfer Cymru; a
- pheidio â darparu llwybr penodol ar gyfer gweithwyr â sgiliau isel, ond cyflwyno amrywiaeth o fesurau trosiannol. Roedd hefyd yn cynnig rhai newidiadau bach i waith ôl-astudio.

**22.** Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth bresennol y DU wedi ymrwymo i ddatblygu gwelliannau i gynlluniau'r llywodraeth flaenorol ar gyfer system fewnfudo newydd, ac wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo ddatblygu cynlluniau ar gyfer system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau, yn debyg i system Awstralia. Nid yw'r gwaith hwn wedi dod i ben eto.[6]

## Newidiadau i Haen 2

**23.** Mae'r Papur Gwyn yn cynnig ehangu a symleiddio Haen 2 trwy gael gwared ar y cap ar fisâu a'r prawf marchnad preswylwyr (ymhlith pethau eraill).

**24.** Mewn cyflwyniadau ysgrifenedig i'n hymgynghoriad, roedd rhai rhanddeiliaid yn croesawu'r ymrwymiad i symleiddio'r broses Haen 2.[7] Fodd bynnag, codwyd

[4] Llywodraeth EM, "The UK's future skills-based immigration system", 19 Rhagfyr 2018

[5] Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo, "Migration Advisory Committee (MAC) report: EEA migration", 18 Medi 2018

[6] Llywodraeth EM, 'EU citizens and freedom of movement', 19 Awst 2019

[7] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru; FOM12 Prifysgolion Cymru

pryderon hefyd ynghylch y bwriad i ymgorffori mewnfudwyr o'r 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill yn yr UE yn y system fewnfudo bresennol sy'n seiliedig ar bwyntiau, gyda'r mwyafrif yn dod o dan Haen 2 ar gyfer gweithwyr medrus sydd â chynigion swyddi.[8]

**25.** Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wrthym fod ehangu Haen 2 yn cael ei groesawu'n gyffredinol ond fe wnaeth hefyd fynegi pryderon y gallai'r newidiadau hyn olygu rhagor o gostau ariannol a gweinyddol i sectorau sydd eisoes yn gweithredu dan bwysau.[9]

**26.** Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod bwriad Llywodraeth y DU i ddod â'r rhyddid i symud i ben ar 31 Hydref, pe byddai "dim cytundeb" wedi achosi cryn ansicrwydd i'r sector addysg uwch, yn anad dim oherwydd bod y polisi wedi'i newid deirgwaith.[10]

**27.** Nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi ehangu Haen 2 i gynnwys dinasyddion yr UE. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau y gallai "lleihau'r llif dwy ffordd rhwydd o dalent…arwain at golli nifer sylweddol o sgiliau pwysig yng Nghymru ac yn economi Cymru". At hynny, amlygodd Cyngor y Celfyddydau bryderon mewn perthynas â chymhlethdod, cost a baich gweinyddol system fewnfudo Haen 2.[11]

**28.** Dywedodd Prifysgol Caerdydd ei bod, ers 2008, wedi gallu cyflogi gwladolion nad ydynt o'r AEE o dan y system Haen 2 bresennol sy'n seiliedig ar bwyntiau, ond bod y "system bresennol yn feichus a chostus i gyflogwyr".[12] Roedd yn croesawu bwriad y Papur Gwyn i symleiddio'r system drwyddedu nawdd bresennol. Mynegodd y Brifysgol bryderon hefyd am yr amserlenni ac a ellid ymestyn y system Haen 2 erbyn Ionawr 2021.[13]

**29.** Dywedodd TUC Cymru wrthym ei bod yn arbennig o bryderus am yr effaith y bydd cynnwys dinasyddion yr UE mewn Haen 2 estynedig yn ei chael ar grwpiau ar yr ymylon yn y farchnad lafur, fel menywod, a fydd dan anfantais annheg oherwydd y meini prawf, gan gynnwys y trothwy cyflog.[14]

---

[8] FOM07 Fforwm Busnes Cymru Ffrainc (Le Club), Capital Law Ltd, Acorn Recruitment

[9] FOM04 RCN Cymru

[10] FOM12 Prifysgolion Cymru

[11] FOM10 Cyngor Celfyddydau Cymru

[12] FOM09 Prifysgol Caerdydd

[13] FOM09 Prifysgol Caerdydd

[14] FOM14 TUC Cymru

**30.** Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw effaith anghymesur ar fenywod, neu unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gan ychwanegu y byddai Asesiad o Effaith Cydraddoldeb y Papur Gwyn ar Fewnfudo yn "ddefnyddiol".[15]

## Y trothwy cyflog o £30,000

**31.** Mae un o'r negeseuon cryfaf a gawsom yn y dystiolaeth yn ymwneud â'r trothwy cyflog presennol o £30,000 ar gyfer cyflogi pobl trwy Haen 2. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo ystyried y mater hwn eto.

**32.** Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod cyflog y mwyafrif llethol o wladolion yr UE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru yn is na'r trothwy cyflog hwn, hyd yn oed y rhai mewn swyddi sgiliau canolig a sgiliau uchel.[16]

**33.** Cyfeiriodd TUC Cymru at y ffaith mai'r cyflog blynyddol canolrifol yng Nghymru yn 2018 oedd tua £21,630, sy'n sylweddol is na'r trothwy arfaethedig.[17]

**34.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym:

> "our members feel that the Immigration White Paper will pose significant additional challenge for the NHS in Wales in terms of the health and social care workforce and therefore the services that can be provided across our communities. Our members are mostly concerned that the proposed £30,000 salary threshold within the Skilled Worker Route will materially affect their ability to recruit overseas professionals across all specialties."[18]

**35.** Ychwanegodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn gwaethygu'r sefyllfa bresennol o ran prinder staff a dywedodd fod 53 y cant o staff y GIG sy'n dod o'r UE yn ennill llai na £30,000 ar hyn o bryd.[19]

---

[15] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[16] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru; FOM12 Prifysgolion Cymru; FOM01 Sefydliad Bevan; FOM04 RCN Cymru; FOM06 Airbus; FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru; FOM03 FSB Cymru

[17] FOM14 TUC Cymru

[18] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

[19] Ibid.

**36.** Dywedodd Airbus fod y trothwy yn rhy uchel i sectorau allweddol, a allai fod â goblygiadau i wasanaethau a diwydiannau allweddol.[20]

**37.** Dywedodd Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru (SMWCC) wrthym fod y trothwy cyflog arfaethedig yn is o lawer na chyflogau cyfartalog Cymru.[21] Fe wnaethon nhw ychwanegu y bydd y trothwy yn rhoi Cymru dan anfantais, o ran denu talent o dramor o gymharu ag ardaloedd mwy cyfoethog, ac o ran y codiadau anghymesur mewn cyflog y byddai'n rhaid i fusnesau Cymru eu cynnig i ddinasyddion nad ydyn nhw'n dod o'r DU.[22]

**38.** Disgrifiodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) y trothwy cyflog o £30,000 fel rhan fwyaf pryderus y Papur Gwyn. Dywedodd y gellir dadlau bod y trothwy yn mynd yn groes i'r nod o gael dull mewnfudo ar sail sgiliau, yn enwedig o ran gwahaniaethau rhanbarthol mewn cyflogau, megis yng Nghymru.[23] Roedden nhw hefyd yn dadlau y byddai gosod y cyflog ar y trothwy hwn yn rhoi busnesau bach a chanolig Cymru dan anfantais gystadleuol o'u cymharu ag ardaloedd eraill o'r DU sydd â chyflogau cyfartalog uwch.

**39.** Dadleuodd Sefydliad Bevan y byddai'r trothwy cyflog o £30,000 yn cael effaith negyddol sylweddol yng Nghymru ac na fyddai cynigion eraill i ddiwygio Haen 2 (er enghraifft drwy leihau'r gofynion cymwysterau) yn dod â braidd ddim budd oherwydd byddai trothwy o £30,000 yn gweithredu, i bob pwrpas, fel rhwystr gan nad yw'n adlewyrchu'r lefelau cyflog is yng Nghymru.[24] At hynny, fe wnaethon nhw ddweud mai'r cyflog gros cyfartalog yn 2017 ar gyfer gweithwyr amser llawn yng Nghymru oedd tua £26,000.[25]

**40.** Mynegodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc "bryderon difrifol" ynghylch y trothwy cyflog gan ddadlau na ddylai polisi gael ei yrru gan lefel cyflog ac y dylai, yn hytrach, fod yn seiliedig ar angen cyflogwyr a'r economi am sgiliau / gweithwyr.[26]

---

[20] FOM06 Airbus

[21] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[22] Ibid.

[23] FOM03 FSB Cymru

[24] FOM01 Sefydliad Bevan

[25] Ibid.

[26] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc (Le Club), Capital Law ac Acorn Recruitment.

**41.** Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru nad yw'n credu y dylai unrhyw drothwy cyflog fod yn rhan o'r system fewnfudo gan ddadlau y dylid annog mewnfudo yn y sector a'r rhanbarthau a bod ei angen ni waeth beth fo'r cyflog.[27]

### Adroddiad "Mudo yng Nghymru"

**42.** Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddwyd dogfen yr Athro Jonathan Portes a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio effaith cynigion y Papur Gwyn ar Gymru.[28]

**43.** Canfu'r ymchwil fod yr heriau yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio yn fwy difrifol yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn y DU, gyda thwf arafach yn y boblogaeth gyffredinol ond twf cyflymach ymhlith pobl dros 65 oed. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y boblogaeth 16-64 yn crebachu 5 y cant erbyn 2039. Dadleuodd y gallai ymfudo ar lefel llai na'r rhagamcan waethygu'r problemau hyn.[29]

**44.** O dan gynigion y Papur Gwyn, amcangyfrifodd yr Athro Portes na fyddai bron i ddwy ran o dair o weithwyr yr UE yng Nghymru ar hyn o bryd yn gymwys i gael fisa Haen 2 gyda throthwy cyflog o £30,000. Byddai hynny'n arwain at ostyngiad o 57 y cant yn lefel y mewnfudo o'r UE i Gymru dros 10 mlynedd. Amcangyfrifodd y byddai'r "ergyd i GDP rhwng tua 1 a 1.5% o GDP dros gyfnod o ddeng mlynedd [yng Nghymru], o'i gymharu â 1.5 i 2% ar gyfer y DU gyfan".[30]

## Barn Llywodraeth Cymru

**45.** Ar ôl y refferendwm, disgrifiodd Llywodraeth Cymru yn fanwl yn 2017 sut y byddai'n ymdrin â mewnfudo.[31] Galwodd am system ffafriol o fewnfudo i ddinasyddion yr UE, a dywedodd "os bydd Llywodraeth y DU yn dilyn polisi mewnfudo cyfyng a fyddai'n niweidiol i Gymru, byddwn yn edrych ar opsiynau am ddulliau gweithredu gwahanol mewn gwahanol ardaloedd a fyddai'n fwy priodol ar gyfer anghenion a buddiannau Cymru".[32]

**46.** Mewn ymateb i'r Papur Gwyn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles AC, ei fod yn "bryderus iawn y byddai system fewnfudo mor

---

[27] FOM04 RCN Cymru

[28] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, "Mudo yng Nghymru: effaith newidiadau polisi ôl-Brexit,"Mawrth 2019

[29] Ibid.

[30] Ibid.

[31] Llywodraeth Cymru, 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl,', 7 Medi 2017

[32] Ibid.

gyfyngol ar ôl Brexit yn arwain at brinder sgiliau gwirioneddol yn ein sectorau economaidd allweddol", a galwodd ar Lywodraeth y DU i ddileu'r trothwy cyflog o £30,000.[33]

## Ein barn ni

**47.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod nifer o feysydd yng nghynigion y Papur Gwyn yn destun pryder. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r effeithiau negyddol a allai ddeillio o gynnwys ymfudwyr y dyfodol o'r 27 aelod-wladwriaeth sy'n weddill yn yr UE yn system fewnfudo bresennol y DU (er ei bod wedi'i hymestyn), ac effaith y trothwy cyflog arfaethedig o £30,000 y flwyddyn.

**48.** Nodwn fod y dystiolaeth yn gwrthod yn llwyr y cynigion presennol ar gyfer trothwy cyflog o £30,000 y flwyddyn. Yn benodol, mae'n amlwg bod y trothwy cyflog hwn yn sylweddol uwch na chyflogau canolrifol Cymru ac y byddai bron i ddwy ran o dair o weithwyr yr UE sydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn anghymwys i symud i Gymru o dan y cynllun arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno na fydd trothwy cyflog ar y lefel hon yn diwallu anghenion, gofynion nac economi Cymru. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth y DU i ostwng y gofynion o ran y trothwy cyflog mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol.

**49.** Rydym yn croesawu'r adolygiad sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo ac edrychwn ymlaen at ystyried cynigion diwygiedig maes o law.

**50.** Wrth wneud yr adolygiad hwn, dylai'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo hefyd ystyried y ffaith y byddai trothwy cyflog o £30,000 yn gosod y bar ar lefel sylweddol uwch na'r enillion cyfartalog yng Nghymru. Yn 2018, y cyflog blynyddol canolrifol yng Nghymru oedd £21,630 ar gyfer yr holl weithwyr, neu oddeutu £26,000 gros, ar gyfartaledd ar gyfer gweithwyr amser llawn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddi i sicrhau bod y trothwy cyflog arfaethedig o £30,000 yn cael ei ostwng er mwyn adlewyrchu cyd-destun Cymru yn well mewn unrhyw system fewnfudo ar ôl Brexit.

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Goblygiadau Cynigion Mewnfudo Llywodraeth y DU ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Economi Ehangach, 11 Mehefin 2019

**51.** Nodwn y pryderon a fynegwyd inni gan randdeiliaid y gallai'r newidiadau arfaethedig i Haen 2, a'r trothwy cyflog, effeithio'n negyddol ar grwpiau o ddinasyddion ar yr ymylon.

**Casgliad 2.** Clywsom farn glir hefyd nad yw'r Papur Gwyn presennol yn rhoi digon o sylw i effaith y cynigion ar gydraddoldeb. Credwn ei bod yn bwysig bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei wneud i gydfynd ag unrhyw gynigion diwygiedig ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i ymrwymo i hyn.

## Goblygiadau ehangach y newidiadau arfaethedig

**52.** Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at effeithiau ehangach y gallai'r newidiadau arfaethedig eu cael ar sectorau allweddol.[34]

**53.** Soniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am bwysigrwydd mewnfudwyr o'r UE i'r gwasanaethau cyhoeddus, fel addysg a gofal cymdeithasol.[35] Dywedodd hefyd y gallai Brexit greu heriau ychwanegol o ran diwallu'r prinder sgiliau.[36]

**54.** Tynnodd FSB Cymru sylw at anawsterau posibl o drosglwyddo i system newydd:

> "An overwhelming majority of smaller employers in the UK have never made use of the UK's points-based immigration system (95%), as the majority have recruited EU workers from UK labour markets (85%). As is presently constituted, the system to sponsor workers from outside the UK would be costly and onerous. This is particularly true for SMEs who will tend not to have HR departments to be able to deal with the complexities. As such, there is a risk that this will hurt SMEs and business growth."[37]

**55.** Dywedodd Airbus wrthym y gallai cynigion y Papur Gwyn rwystro prosiectau sydd wedi'u hen sefydlu a gadael bylchau yng ngofynion Cymru na ellir eu llenwi yn y tymor byr.[38]

---

[34] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru; FOM06 Airbus; FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru; FOM03 FSB Cymru

[35] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[36] Ibid.

[37] FOM03 FSB Cymru

[38] FOM06 Airbus

**56.** Dadleuodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc y bydd cynigion y Papur Gwyn yn anochel yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl o'r UE sy'n dod i fyw yng Nghymru gan ychwanegu y byddai hyn yn gwaethygu'r prinder sgiliau presennol.[39]

**57.** Amlinellodd SMWCC y risg fel a ganlyn:

> "If the UK takes a more hostile attitude to immigration fewer people from overseas will want to move here, reducing the pool of talent that Welsh businesses can choose from. Our members who regularly recruit international staff are already reporting that they are receiving fewer applications from outside the UK. They expect this to only get worse with time."[40]

**58.** Dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, fod yr ansicrwydd presennol am y system fewnfudo ar ôl Brexit yn achosi problemau wrth gynllunio gweithluoedd a rhaglenni addysgu.[41] Yn benodol, dywedodd Prifysgolion Cymru:

> "The new Euro Temporary Leave to Remain scheme will require all EU nationals arriving after 31 October 2019 and staying after 31 December 2020 to apply for a free three-year temporary leave to remain visa. This proposal is likely to cause uncertainty for any students studying longer than three years."[42]

**59.** Yn ei gyflwyniad, dywedodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fod yna ddibyniaeth "gymharol uchel ar feddygon sydd wedi eu cymhwyso yn yr AEE mewn rhai ardaloedd yn y DU" ac "mewn rhai ardaloedd diarffordd ac anghysbell yng Nghymru ac yn yr Alban, bod canran uwch o feddygon nad ydynt wedi eu trwyddedu yn y DU, na'r nifer ar gyfer y DU yn ei grynswth".[43] Roedd ei bapur hefyd yn cynnwys ffigurau ar ddosbarthiad anwastad meddygon cymwysedig yr AEE, pan gânt eu dadansoddi fesul bwrdd iechyd lleol. Roeddynt yn amrywio o dros 10 y cant o feddygon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i 3.7 y cant ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

---

[39] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc (Le Club)

[40] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[41] FOM12 Prifysgolion Cymru

[42] Ibid.

[43] FOM08 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

### Cost

**60.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y costau ychwanegol y gallai cyflogwyr eu hwynebu o ganlyniad i'r newidiadau hyn.[44]

**61.** Dywedodd Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru fod nifer o gostau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn fel rhan o'r broses o gaffael fisâu ar gyfer gwladolion nad ydynt o'r UE.[45]

**62.** Yn yr un modd, dywedodd FSB Cymru y byddai eu haelodau naill ai'n cynyddu ymdrechion i ddenu a hyfforddi gweithwyr y DU, neu'n ceisio amsugno costau system newydd ar gyfer mewnfudwyr. Fodd bynnag fe rybuddiodd na fydd busnesau llai yn gallu amsugno unrhyw gost yn llwyddiannus. Aeth rhagddo i ddweud: "…it is therefore essential that the UK Government seeks to ensure that the costs of any post Brexit work permitting system are minimal, and that the Welsh Government is able to provide appropriate training and education to meet our skills needs".[46]

**63.** Dywedodd Conffederasiwn y GIG wrthym y gallai pryderon ynghylch cost fod yn rhwystr i gyflogwyr ac ymgeiswyr.[47] Yn benodol, tynnodd sylw at y diffyg manylion am gost nawdd, Tâl Sgiliau Mewnfudo a'r Gordal Iechyd Mewnfudo, a dywedodd y gallai'r costau cysylltiedig

> "…further deter non-UK nationals from applying for posts in health and social care in Wales, or make it cost prohibitive for employers."[48]

## Effaith ansicrwydd a risg "dim cytundeb"

**64.** Soniodd nifer o randdeiliaid am effeithiau ansicrwydd parhaus, ac effaith bosibl Brexit "dim cytundeb".

**65.** Byddai Brexit "dim cytundeb" yn golygu gadael yr UE heb gytundeb ffurfiol, cyfreithiol ar ystod o faterion lle mae'r UE a'r DU yn cydweithredu ar hyn o bryd. Er bod rhai cytundebau dwyochrog ("cytundebau bach" fel y'u gelwir) yn debygol o fod ar waith (mewn meysydd fel hedfan, gofal iechyd a chludiant) mae'r rhain yn

---

[44] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru; FOM03 FSB Cymru; FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[45] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[46] FOM03 FSB Cymru

[47] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

[48] Ibid.

debygol o fod yn gyfyngedig o ran cwmpas, ac wedi'u cynllunio i liniaru effeithiau'r senario waethaf.

**66.** Ym mis Awst 2019, soniwyd y byddai'r Ysgrifennydd Cartref, Priti Patel AS, yn ceisio dod â'r rhyddid i symud i ben ar 31 Hydref 2019, os bydd y DU yn gadael heb gytundeb. Ond ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod, os bydd Brexit "dim cytundeb", y bydd llawer o'r fframwaith rhyddid i symud yn parhau o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 hyd nes bydd y Senedd yn pasio deddfwriaeth sylfaenol i'w diddymu.[49]

**67.** Dywedodd FSB Cymru wrthym y gallai rhyddid i symud ddod i ben yn sydyn y diwrnod ar ôl Brexit dim cytundeb, fel y soniodd un o Weinidogion y DU yn ddiweddar, a mynegodd bryderon ynghylch yr effaith ddifrifol y byddai canlyniad o'r fath yn ei chael ar fusnesau bach a chanolig.[50]

**68.** Dywedodd Conffederasiwn y GIG wrthym fod eu haelodau wedi mynegi pryderon ynghylch y prinder manylion am bolisïau'r dyfodol gan gynnwys senario "dim cytundeb". Yn benodol, dywedodd Conffederasiwn y GIG fod angen eglurhad pellach ynghylch hawliau dinasyddion yr UE a mynegodd bryderon ynghylch naws y negeseuon am yr hyn a fydd yn digwydd pa na byddai rhywun wedi'i gofrestru â chynllun erbyn mis Rhagfyr 2020.[51]

**69.** Mynegodd Conffederasiwn y GIG bryderon hefyd am y diffyg sicrwydd ynghylch y costau gweinyddol ar gyfer unigolion mewn unrhyw system yn y dyfodol:

> "For example, the cost EU/EEA citizens must pay for visas (which is not yet established) could increase per year and could prevent applicants from EU countries applying to posts in Wales. Furthermore, the lack of detail on the cost of sponsorship, Immigration Skills Charge and the Immigration Health Surcharge could further deter non-UK nationals from applying for posts in health and social care in Wales, or make its cost prohibitive for employers."[52]

**70.** Dywedodd Prifysgol Caerdydd y byddai'n "bryder mawr i ni pe cwtogir ar y rhyddid i symud heb fawr o rybudd, neu ddim rhybudd o gwbl os oes Brexit heb

---

[49] Llywodraeth EM, 'No deal immigration arrangements for EU citizens arriving after Brexit', 5 Medi 2019

[50] FOM03 FSB Cymru

[51] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

[52] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

gytundeb".[53] Aeth y Brifysgol ymlaen i amlinellu'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar symudedd myfyrwyr a galwodd am gyfranogiad llawn y DU yng nghynllun Erasmus+ ar ôl Brexit.[54]

**71.** Yn yr un modd, dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod bwriad Llywodraeth y DU i ddod â'r rhyddid i symud i ben ar 31 Hydref 2019, pe byddai Brexit "dim cytundeb", wedi achosi cryn ansicrwydd i'r sector addysg uwch, yn anad dim oherwydd bod y polisi wedi'i newid deirgwaith.[55]

**72.** Dywedodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc wrthym fod y diffyg sicrwydd yn effeithio ar y llif presennol o bobl gan gynnwys mewn sectorau fel peirianneg, adeiladu a thechnoleg.[56]

**73.** Tynnodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol sylw hefyd at faterion mewn perthynas â "dim cytundeb" ac yn fwy cyffredinol at yr effeithiau y mae ansicrwydd parhaus yn eu cael ar addysg a hyfforddiant meddygol, a rhannu gwybodaeth.[57]

## Ein barn ni

**74.** Cawsom dystiolaeth sy'n awgrymu bod Brexit eisoes yn cael effaith ar Gymru (a'r DU) fel lle deniadol i fyw, gweithio ac astudio ynddi.

**75.** Clywsom hefyd y gallai symud tuag at system fewnfudo fwy cyfyng ar ôl i'r DU adael effeithio'n negyddol ar sectorau datganoledig fel iechyd a gofal cymdeithasol a chreu ystod o gostau ychwanegol i gyflogwyr.

**76.** Mae'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid yn dangos bod lefel uchel o ansicrwydd ac yn awgrymu bod diffyg gwybodaeth awdurdodol am y mater hwn. Gwaethygir hyn gan y negeseuon eithaf cymysg sy'n deillio o Lywodraeth y DU.

**Casgliad 3.** Rydym wedi cael tystiolaeth sy'n mynegi pryderon am y diffyg gwybodaeth ac ansicrwydd mewn perthynas â'r newidiadau i'r reolau rhyddid i symud ar ôl Brexit. Nodwn fod hyn yn cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd ac ar allu rhanddeiliaid i gynllunio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer amrywiol senarios Brexit. Rydym yn annog mwy o eglurder a sicrwydd gan Lywodraeth y DU.

[53] FOM09 Prifysgol Caerdydd
[54] FOM09 Prifysgol Caerdydd
[55] FOM12 Prifysgolion Cymru
[56] FOM01 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc
[57] FOM08 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

**77.** Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid, yn enwedig mewn sectorau allweddol fel gofal iechyd ac addysg uwch, am yr ansicrwydd parhaus mewn perthynas â dyfodol rhyddid i symud. Mae'n hanfodol bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gywir.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu pwynt gwybodaeth canolog ar bolisi mewnfudo lle mae modd i bob sector datganoledig gael gwybodaeth awdurdodol mewn perthynas â'r newidiadau posibl i ryddid i symud ar ôl Brexit, a'i bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei hymdrechion yn y maes yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.

## Materion eraill sy'n benodol i sectorau

### Y celfyddydau

**78.** Yn ei gyflwyniad, dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru nad yw'r "cynigion yn gwneud digon o bell ffordd i gymryd i ystyriaeth natur ac anghenion unigryw y sector creadigol hynod symudol" a bod "angen cydnabyddiaeth o natur unigryw y sector creadigol er mwyn galluogi'r sector i barhau i ffynnu".

**79.** Dywedodd Cyngor y Celfyddydau hefyd fod y Papur Gwyn "yn cynnig cytuniad cydweithredol ym meysydd diwylliant ac addysg" sydd yn "cydnabod y bydd yr UE a'r DU angen darpariaethau sy'n caniatáu symudedd o ran y cytuniadau hyn, ond nid oes unrhyw fanylion pellach ar hyn o bryd am beth neu sut y gallai'r rhain fod".[58]

### Addysg bellach ac uwch

**80.** Yn eu cyflwyniadau, cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd a Phrifysgolion Cymru at y rôl bwysig a buddiol sydd gan ryddid i symud yn y sectorau addysg uwch yng Nghymru.[59]

**81.** Mynegodd Prifysgol Caerdydd bryderon ynghylch dyfodol cynllun symudedd myfyrwyr Erasmus+. Dywedodd:

> "…mae amser yn mynd yn brin i'r DU gynnal aelodaeth lawn a di-dor ag Erasmus+ neu'r cynllun olynol. Os ydym am osgoi bwlch o ran myfyrwyr sy'n cymryd rhan, rhaid datrys y mater 18 mis cyn gadael yn llawn. Byddai gofyn i unrhyw gynllun sy'n disodli Erasmus+ ganiatáu i ni gynnal cydweithio gwerthfawr â phartneriaid yn yr UE a chefnogi

[58] FOM10 Cyngor Celfyddydau Cymru

[59] FOM09 Prifysgol Caerdydd; FOM12 Prifysgolion Cymru

> cyfnodau gorfodol dramor ar gyfer myfyrwyr ieithoedd modern, yn ogystal â chefnogi'r broses ehangach o ryngwladoli addysg uwch yng Nghymru."[60]

**82.** Ategwyd y pryderon hyn gan Brifysgolion Cymru a bwysleisiodd fanteision rhaglen Erasmus+ wrth gynnal symudedd i mewn i Gymru ac allan ohoni, a'i rôl bwysig mewn cysylltiadau rhwng prifysgolion Cymru ac ar draws Ewrop.[61]

**83.** Mynegodd Prifysgol Caerdydd a Phrifysgolion Cymru bryderon ynghylch y newid i ddulliau prosesu'r elfen biometreg o fisâu myfyrwyr a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Gartref. Yn ôl Prifysgol Caerdydd:

> "Ym mis Medi a Hydref, bydd tua 1,000 o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyrsiau Saesneg cyn-sesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd rhaid i'r holl fyfyrwyr hyn gael apwyntiad gyda Sopra Steria dros gyfnod o bedair wythnos. Ni fydd Sopra Steria yn gallu ateb y galw hwn, ac ymdrin â phob haen Fisa a Mewnfudo'r DU, gyda'r 48 o apwyntiadau rhad ac am ddim dyddiol sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Golyga hyn na fydd myfyrwyr rhyngwladol yn cael y fisa gofynnol tan yn hwyrach yn ystod eu hastudiaethau oni bai eu bod yn talu i ddiweddaru eu ceisiadau neu fod y sefydliad yn ymgysylltu â chwmni allanol ar wahân am gost sylweddol. Mae hwn yn fethiant difrifol ar ran y Swyddfa Gartref a Sopra Steria ac mae angen rhoi sylw iddo fel mater o frys i ddatrys y sefyllfa."[62]

## Iechyd, gofal cymdeithasol a rheoleiddio meddygol

**84.** Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru a Chonffederasiwn y GIG y byddai polisi mewnfudo mwy cyfyng ar ôl Brexit yn gwaethygu'r problemau recriwtio a chadw staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn benodol, dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wrthym:

> "International recruitment of nurses is not a substitute for the sustainable growth of the profession within Wales but it is important to recognise the NHS in Wales and our care home sector requires international recruitment of nurses to provide services and will continue to do so."[63]

[60] FOM09 Prifysgol Caerdydd

[61] FOM12 Prifysgolion Cymru

[62] FOM09 Prifysgol Caerdydd

[63] FOM04 RCN Cymru

**85.** Yn ei gyflwyniad, mynegodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol bryderon ynghylch addysg a hyfforddiant meddygol ar ôl Brexit. Dywedodd fel a ganlyn:

> "Ymgorfforir diffiniadau o gymhwyster meddygol cyntaf, yn ogystal â rhywfaint o hyfforddiant meddygol arbenigol, yng nghyfraith yr UE trwy'r Gyfarwyddeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol. Mae hyn yn rhagdybio cyffelybrwydd addysg a hyfforddiant meddygol ar draws yr AEE. Mae ar y sail yr ystyrir bod cymwysterau meddygol wedi bodloni meini prawf, gall meddygon ymarfer eu hawl i ryddid i symud oddi mewn i'r AEE.
>
> Ni fydd y trefniant i barhau i gydnabod y mwyafrif o gymwysterau'r AEE yn cael ei gyfateb gan reolyddion meddygol Ewrop mewn perthynas â chymwysterau'r DU."[64]

## Ein barn ni

**86.** Rydym yn nodi'r pryderon sy'n benodol i sectorau a amlygwyd uchod ac yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

**87.** Nodwn ganfyddiadau blaenorol adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,[65] ac adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y maes hwn.[66]

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar gydweithredu ym maes y celfyddydau yn y dyfodol ar ôl Brexit, gan gynnwys cytuno ar gytundebau cydweithredol newydd rhwng y DU a'r UE;
- pa drafodaethau y mae'n eu cael am rôl y DU yn y rhaglen Erasmus+ yn y dyfodol, ac unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael ar gyfer cynllun olynol;

---

[64] FOM08 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

[65] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg, 'Gradd ar Wahân? Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach', Rhagfyr 2018

[66] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu', Rhagfyr 2018

- pa drafodaethau y mae'n eu cael am roi cydnabyddiaeth gilyddol i gymwysterau addysg feddygol a hyfforddiant.





# Pennod 3:

# Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a dyfodol dinasyddion yr UE yng Nghymru

Amcangyfrifir bod 3 miliwn o ddinasyddion o wledydd eraill yr UE a'r AEE yn byw yn y DU, a bod tua 80,000 yng Nghymru. Lansiodd Llywodraeth y DU Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun Preswylio) i reoleiddio statws mewnfudo gwladolion yr UE a'r AEE ar ôl Brexit. Mae'r bennod hon yn trafod sut mae'r cynllun hwn yn gweithredu ac ym mha fodd y bydd yn effeithio ar fewnfudwyr.

# 3. Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a dyfodol dinasyddion yr UE yng Nghymru

Amcangyfrifir bod 3 miliwn o ddinasyddion o wledydd eraill yr UE a'r AEE yn byw yn y DU, a bod tua 80,000 yng Nghymru. Lansiodd Llywodraeth y DU Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun Preswylio) i reoleiddio statws mewnfudo gwladolion yr UE a'r AEE ar ôl Brexit. Mae'r bennod hon yn trafod sut mae'r cynllun hwn yn gweithredu ac ym mha fodd y bydd yn effeithio ar fewnfudwyr.

## Y Cefndir

**88.** Sefydlodd Llywodraeth y DU y Cynllun Preswylio oherwydd na fydd gan ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU hawl gyfreithiol, yn y rhan fwyaf o achosion, i breswylio yn y DU pan fydd yn gadael yr UE a phan fydd rhyddid i symud yn dod i ben. Nid oes rhaid i ddinasyddion Iwerddon wneud cais i'r Cynllun Preswylio, a bydd ganddyn nhw hawl i fyw yn y DU am gyfnod amhenodol o dan drefniant ar wahân.[67]

**89.** Bydd y rhai sy'n gwneud cais i'r Cynllun Preswylio naill ai'n cael statws "preswylydd sefydlog" neu statws "preswylydd cyn-sefydlog", gan ddibynnu pa mor hir y maen nhw wedi byw yn y DU.

- Mae statws preswylydd sefydlog ar gael i'r rhai sydd wedi byw yn y DU yn barhaus ers pum mlynedd erbyn 31 Rhagfyr 2020 (neu erbyn y dyddiad y bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb). Mae'n caniatáu i bobl aros am gyfnod amhenodol, oni bai eu bod yn gadael y DU am fwy na phum mlynedd.

- Gellir rhoi statws preswylydd cyn-sefydlog i bobl a ddechreuodd fyw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 (neu erbyn y dyddiad y bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb) ond nad ydynt wedi byw yn y DU am bum

[67] Llywodraeth EM, 'Common Travel Area Guidance', 22 Chwefror 2019

mlynedd barhaus eto. Mae'n caniatáu iddynt aros yn y DU am bum mlynedd arall.

**90.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y Cynllun Preswylio yn parhau i weithredu os na fydd cytundeb. Mae'n nodi mai 30 Mehefin 2021 fydd y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais, neu 31 Rhagfyr 2020 os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.

**91.** Ar 30 Medi 2019, roedd 29,300 o ddinasyddion yr UE yng Nghymru wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio, sef tua 41 y cant o ddinasyddion yr UE (ac eithrio dinasyddion Iwerddon) sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd. Ledled y DU, mae 56 y cant o ddinasyddion yr UE wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio.[68]

**92.** Ar hyn o bryd, mae tua 61 y cant o ymgeiswyr wedi cael statws preswylydd sefydlog, a rhoddwyd statws preswylydd cyn-sefydlog i 39 y cant (roedd 0.5 y cant wedi cael canlyniad arall).

## Profiadau personol mewn perthynas â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

**93.** Ar 30 Medi, cynhaliwyd sesiynau grwpiau ffocws, lle cafwyd tystiolaeth bersonol rymus ac emosiynol ynghylch y Cynllun Preswylio.

**94.** Credai llawer o'r cyfranogwyr nad oedd croeso iddynt bellach yn y DU yn dilyn refferendwm yr UE, a bod y polisi a ddilynwyd gan Lywodraeth y DU ers y refferendwm wedi gwaethygu hyn.[69]

**95.** Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn sôn bod rhywfaint o'r agweddau ynghylch ymfudo o'r UE wedi caledu a bod hyn wedi cael effaith ar eu lles emosiynol nhw, a lles ffrindiau a/neu aelodau o'r teulu.

**96.** Pwysleisiodd un cyfranogwr nad proses weinyddol yn unig mo hyn, a'i bod yn bwysig cofio bod y broses yn effeithio ar fywydau pobl go iawn. Aeth y cyfranogwr ymlaen i ddweud: "Mae'r weithred o orfod gwneud cais am statws sy'n lleihau hawliau rhywun yn teimlo'n israddol. Does ryfedd nad oes ciwiau i wneud y ceisiadau".[70]

[68] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 'The progress of the EU Settlement Scheme so far', 11 Hydref 2019

[69] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 'Crynodeb Grwpiau Ffocws' - Hydref 2019

[70] Ibid.

**97.** Roedd gan y rhai a gyfrannodd i'n fforwm ar-lein brofiadau cymysg o'r broses ymgeisio, a oedd yn amrywio o fod yn lled foddhaol i negyddol. Dywedodd un cyfrannwr:

> "I was granted settled status but on the other side my daughters and wife who lived here longer than 6 years, they were asked for evidence and on my wife when put the NI number it said the records showed she was here less than five years which is ridiculous. I have send all the evidence they requested but no answer yet. This is causing so much stress to my family it's ridiculous."[71]

**98.** Dywedodd cyfrannwr arall wrthym:

> "I have applied, and was granted a settled status (I don't think anybody knows what it really is) and the experience was disheartening."

**99.** Dywedodd nifer o gyfranogwyr hefyd na ellir gwarantu'r hawliau sydd gan bob dinesydd ar hyn o bryd, yn sgil aelodaeth y DU o'r UE, ar ôl Brexit. Dadleuwyd bod angen i Senedd y DU ymgorffori'r hawliau hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol.[72]

## Ein barn ni

**100.** Wrth wraidd y maes polisi hwn mae bywydau bob dydd unigolion a'u teuluoedd. Rydym yn cydymdeimlo â'n cyd-ddinasyddion sy'n byw yng Nghymru sy'n gorfod wynebu ansicrwydd mawr o ganlyniad i Brexit.

**101.** Buom yn archwilio rhai o oblygiadau Brexit ar gyfer cydlyniant cymunedol yn ystod ein gwaith ar Gydraddoldebau a Brexit ym mis Hydref 2018. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys tystiolaeth ofidus ynghylch cynnydd yn yr achosion o droseddau casineb a theimladau negyddol. Clywsom dystiolaeth debyg yn ystod ein sesiynau grwpiau ffocws am agweddau negyddol at fewnfudo. Parodd hyn bryder i ni, ac rydym yn llwyr gondemnio agweddau o'r fath.

**102.** Fe wnaethon ni alw am gamau pendant yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2018, ac rydym yn eu hailadrodd yma.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol i gymryd i ystyriaeth yr heriau newydd i gydlyniant cymunedol yng Nghymru.

[71] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 'Trafodaethau Fforwm Ar-lein Loomio'
[72] Crynodeb Grwpiau Ffocws

## Materion yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Preswylio

**103.** Cododd nifer o faterion yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Preswylio yn ystod ein gwaith. Dywedodd Airbus wrthym bod y cynllun yn gweithredu'n dda, ei fod yn hawdd ei ddefnyddio a'i fod wedi rhoi rhywfaint o hyder i weithwyr nad ydynt o'r DU y gallant aros yn y wlad a pharhau i fyw a gweithio yma.[73]

**104.** Dywedodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc wrthym fod pobl sydd wedi bod yn cyfrannu at economi'r DU ers blynyddoedd yn gyffredinol anfodlon â'r cynllun.[74] Ychwanegodd y Fforwm fel a ganlyn:

> "They feel undervalued and hurt by the need to take an active step to legalise their stay in the UK. It would be preferable for it to be granted automatically, with a right to opt-out (in a similar way as the current organ donation system works)."[75]

**105.** Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym eu bod wedi clywed tystiolaeth lafar bod unigolion a oedd wedi gwneud cais am statws cyn-sefydlog ac a oedd, wedi iddyn nhw ddod yn gymwys i gael statws sefydlog, yn cael anhawster i wneud yr ail gais.[76]

**106.** Dywedodd Grŵp Cynrychiolaeth Llafur Cymru (WLRG) wrthym fod y Cynllun Preswylio, yn eu barn nhw (aelodau ac adroddiadau) yn gweithredu mewn dull biwrocrataidd, costus, lled aneffeithiol, a thechnolegol anodd.[77]

**107.** Cyfeiriodd bron pob cyfranogwr yn ein grwpiau ffocws at y lefel isel o gofrestru ar gyfer y Cynllun Preswylio yng Nghymru. Gan gyfeirio at yr effaith yr oedd y Cynllun Preswylio yn ei chael ar bobl ar lawr gwlad, dywedodd un cyfranogwr fod "polisïau'n cael eu drafftio ar gyfer senarios delfrydol, ond nid yw bywydau'n ddelfrydol".[78]

[73] FOM06 Airbus

[74] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc

[75] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc

[76] FOM12 Prifysgolion Cymru

[77] FOM02 Grŵp Cynrychiolaeth Llafur Cymru

[78] Crynodeb Grwpiau Ffocws

### Digidol yn unig

**108.** Mynegodd y rhanddeiliaid bryderon ynghylch dull "digidol yn unig" y Cynllun Preswylio, y ffordd y mae'n gweithio, a'r problemau gyda thechnoleg.[79]

**109.** Cyfeiriodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc at y ffaith bod y system bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i wladolion yr UE fod â ffôn neu lechen Android. Dywedodd hefyd os nad oes ganddyn nhw ddyfeisiau Android, mai dim ond trwy'r post y gallan nhw wneud cais.[80] Fodd bynnag, fel y nodwyd gan gynrychiolwyr y trydydd sector, dim ond ar-lein y gellir cychwyn cais, ac mae angen cyfeiriad e-bost, a allai beri problemau yn y dyfodol i ddinasyddion agored i niwed yn benodol.

**110.** Roedd TUC Cymru o'r farn bod mwy y gallai'r Swyddfa Gartref ei wneud, er enghraifft darparu mwy o ganolfannau sganio dogfennau ledled Cymru i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn gallu cofrestru.[81] Yn ystod y grwpiau ffocws, soniwyd mai dim ond un ganolfan sganio dogfennau sydd ar gael yng Nghymru gyfan, ac y gall y costau teithio fod yn uchel iawn.[82]

**111.** Yn ystod y grwpiau ffocws, cyfeiriodd llawer at yr anawsterau yn ymwneud â natur ddigidol yn unig y Cynllun Preswylio. Dywedodd rhai o'r bobl a oedd yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn benodol, y gallai'r angen i'r unigolion hynny greu cyfeiriad e-bost er mwyn cofrestru ar gyfer y Cynllun beri problemau mewn blynyddoedd i ddod. Dadleuwyd y gellid ystyried darparu dogfen bapur i bobl sydd am gofrestru.[83]

**112.** Dywedodd un cyfranogwr "eu bod yn ei gwneud yn anodd yn fwriadol i ddinasyddion yr UE".[84]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**113.** Yn ystod ein sesiwn gyda James Duddridge AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Ymadael â'r UE, ar 23 Medi, dywedodd wrthym fod 3.2

---

[79] Crynodeb Grwpiau Ffocws

[80] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc

[81] FOM14 TUC Cymru

*DS: Cyhoeddwyd y caiff nifer o ganolfannau sganio ychwanegol eu sefydlu, ac mae rhestr lawn ar gael ar-lein..

[82] Crynodeb Grwpiau Ffocws

[83] Crynodeb Grwpiau Ffocws

[84] Ibid.

miliwn o ddinasyddion yr UE yn y DU gyfan, a bod dros 1.5 miliwn ohonyn nhw wedi cael statws sefydlog neu statws cyn-sefydlog.

**114.** Tynnodd Mr Duddridge sylw hefyd at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cyllid ar gael i 53 sefydliad i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Preswylio. Dywedodd Mr Duddridge:

> "There's a particular concern around vulnerable groups. There's a large number of people who are holding back because they have got that time. It's not something urgent for them. They are actually settled and they know they have the commitment to have settled status. They see that people are going through the process, but they're just holding back until nearer the time. Where there has been some concern is around things like minors, people in care, people who are vulnerable, people who perhaps don't have the language skills or the money to engage in the process. The Government has set up a fund, funnelled through 53 different organisations, that will help those vulnerable people."[85]

**115.** O'r 53 sefydliad y cyfeiriwyd atynt gan Mr Duddridge, un yn unig sydd yng Nghymru.[86]

**116.** O ran y problemau technolegol gyda'r Cynllun Preswylio, dywedodd Mr Duddridge wrthym y byddai ar gael yn fuan ar ddyfeisiau Apple. Esboniodd y Gweinidog hefyd mai'r arfer gorau ar gyfer y mathau hyn o systemau yw mynd yn gwbl electronig lle bo hynny'n bosibl.[87]

## Ein barn ni

**117.** Ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae gennym nifer o bryderon ynghylch sut mae'r Cynllun Preswylio yn gweithredu'n ymarferol. Dywedodd un o'r cyfranwyr i'n sesiynau grŵp ffocws fod "polisïau'n cael eu drafftio ar gyfer senarios delfrydol, ond nid yw bywydau'n ddelfrydol".

**118.** Yn benodol, clywsom am broblemau gyda'r ffaith mai dim ond ar Android y mae'r Cynllun Preswylio ar gael (er y cawsom ein sicrhau y bydd hyn yn cael ddatrys yn fuan) a phryderon am natur ddigidol yn unig y Cynllun Preswylio.

---

[85] Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 23 Medi 2019

[86] Llywodraeth EM, List of organisations, 28 Awst 2019

[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 23 Medi 2019

**119.** Clywsom hefyd am anawsterau o ran sganio dogfennau a nodwn, ar yr adeg y cawsom y dystiolaeth, mai dim ond un ganolfan sganio dogfennau oedd yng Nghymru. Ers hynny, darparwyd rhagor o ganolfannau sganio dogfennau yng Nghymru, ac rydym yn croesawu hynny. O ran cymorth swyddogol y Swyddfa Gartref i grwpiau agored i niwed, nodwn nad oes canolfannau digidol â chymorth mewn rhai ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru,[88] ac mai dim ond mewn rhai mannau y mae modd cael ymweliad cartref.[89]

**120.** Mae'n amlwg i ni fod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r diffygion gyda'r Cynllun Preswylio. Rhaid i'r materion hyn gael eu codi ar frys gyda'r Swyddfa Gartref gan Lywodraeth Cymru, ar lefel Weinidogol.

**121.** Clywsom am yr anawsterau ychwanegol y mae rhai unigolion a theuluoedd yn eu hwynebu oherwydd bod angen iddyn nhw deithio i lysgenadaethau, ac, mewn rhai achosion, y gwledydd yr oedden nhw'n arfer byw ynddyn nhw, er mwyn cael dogfennau swyddogol, gan gynnwys pasbortau.

**122.** Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd wrthym na roddir dogfennau papur i'r rhai sydd wedi gwneud cais am statws sefydlog, ac wedi cael y statws hwnnw. At hynny, rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE Tŷ'r Arglwyddi ym mis Chwefror 2019 bod y ffaith na roddir dogfennau papur i ddinasyddion yn debyg iawn i sgandal Windrush. Rydym yn glir na ellir caniatáu i'r hyn a ddigwyddodd i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan sgandal Windrush ddigwydd eto.

**Casgliad 4.** Rydym o'r farn bod rhinweddau clir i addasu'r Cynllun Preswylio i sicrhau bod cofnod swyddogol yn cael ei ddarparu, ar bapur, o statws "sefydlog" a "chyn-sefydlog".

**Argymhelliad 5.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon, fel y nodir yn ein casgliadau, wrth Swyddfa Gartref y DU, a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am ei hymdrechion yn hynny o beth.

## Cyngor, cymorth a chyfathrebu

**123.** Cymysg oedd y farn yn y dystiolaeth am becyn cyngor a chymorth Llywodraeth Cymru i ddinasyddion yr UE.

---

[88] Llywodraeth EM 'Assisted Digital home visit', 3 Gorffennaf 2019

[89] Llywodraeth EM 'Assisted Digital home visit', 3 Gorffennaf 2019

**124.** Dywedodd rhai, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Airbus, a TUC Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud popeth posibl i gefnogi ceisiadau a chodi ymwybyddiaeth.[90] Dywedodd TUC Cymru wrthym:

> "The Welsh Government has been proactive in trying to maximise the number of EU nationals registering under the scheme, using its networks to reach those it applies to. This has included work with trade unions, as well as third sector organisations. It has also invested in resources to raise awareness and understanding, and provide specialist legal advice."[91]

**125.** Yn ystod y sesiynau grwpiau ffocws, dywedodd y rhai sy'n gweithio i'r trydydd sector fod lefel y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, o ran cefnogaeth ariannol a'r gwaith cydlynu sy'n cael ei ddarparu gan swyddogion, yn uchel.[92]

**126.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i helpu gwladolion yr UE sy'n preswylio yng Nghymru i gofrestru o dan y cynllun.[93] Dywedodd wrthym:

> "The Welsh Government needs to ensure that advice and support is offered in all Local Authorities and local stakeholders are aware of who they can signpost people to. It may be helpful if stakeholders who currently provide support to EU migrants are offered some basic training (level 1) and more advice is available to local stakeholders about where and who they can signpost people to. On undertaking a basic internet search there doesn't appear to be much in the way of advice about where to go to access support in Wales. There needs to be a directory available for people applying and stakeholders."[94]

**127.** Dywedodd Conffederasiwn y GIG wrthym fod ei aelodau yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cynyddu'r hysbysebion cenedlaethol am y Cynllun i godi ymwybyddiaeth am y goblygiadau posibl os nad yw pobl yn gwneud cais.[95]

**128.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wrthym iddi glywed tystiolaeth lafar gan awdurdodau lleol nad yw holl wladolion yr UE yn gwybod am

---

[90] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; FOM06 Airbus; FOM14 TUC Cymru

[91] FOM14 TUC Cymru

[92] Crynodeb Grwpiau Ffocws

[93] FOM01 Sefydliad Bevan

[94] Ibid.

[95] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

y Cynllun, gan ychwanegu y dylid gwneud mwy i roi cyhoeddusrwydd iddo. Fe wnaeth hefyd fynegi pryderon am y ffaith nad oedd y wybodaeth ar gael ar bapur:

> "While there are online resources made available by the Home office this in some cases is then reliant on local authorities having to print them off, which has both time and resource issues - feedback from some authorities is that local businesses might not have an all-staff email newsletter or online resource so authorities are asked whether they can provide leaflets that they can distribute instead."[96]

**129.** Dywedodd FSB Cymru wrthym, wrth ateb y cwestiwn a all Llywodraeth Cymru wneud mwy, fod amheuaeth a yw adrannau'r llywodraeth yn cyfathrebu'n iawn â'i gilydd, a chyda'r cyhoedd. Aeth ymlaen i ddweud y gallai ymgyrch yng Nghymru ategu'r lefel yn y DU er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Cynllun yng Nghymru.[97]

**130.** Dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, er bod Llywodraeth Cymru wedi gwella ei gwaith cyfathrebu yn ystod y misoedd diwethaf, nad oedd y gwaith hwnnw'n ddigonol. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n enwedig nad oedd y negeseuon yn cyrraedd unigolion a theuluoedd ar lawr gwlad.[98]

**131.** Tynnodd rhai cyfranogwyr gymariaethau rhwng y negeseuon clir a diamwys o gefnogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban i ddinasyddion yr UE yn yr Alban a'r canfyddiad bod y negeseuon sy'n dod o Lywodraeth Cymru yn fwy tawedog, ac nad oeddent hyd yn oed yn cyrraedd yr unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt. Roedd llawer yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru geisio efelychu arweiniad Llywodraeth yr Alban yn y maes hwn, a chryfhau sut mae'n cyfleu ei negeseuon o gefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru.

## Barn Llywodraeth Cymru

**132.** Ar 9 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles AC, becyn o gymorth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru. Roedd y cymorth gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

- cymorth gyda cheisiadau'r Cynllun Preswylio drwy rwydwaith Cyngor ar Bopeth yng Nghymru;

[96] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[97] FOM03 FSB Cymru
[98] Crynodeb Grwpiau Ffocws

- darparu gwasanaeth cynghori ar fewnfudo ar gyfer achosion cymhleth, drwy gwmni cyfreithiol sy'n arbenigwyr ar fewnfudo, Newfields Law;
- cynyddu'r ddarpariaeth o ganolfannau cymorth digidol yng Nghymru; a
- gweithio gydag elusennau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i wneud cais am statws preswylydd sefydlog mewn cymunedau anodd cyrraedd atynt ac agored i niwed.[99]

## Ein barn ni

**133.** Clywsom dystiolaeth gymysg gan randdeiliaid am y gwaith ymwybyddiaeth a chyfathrebu cyffredinol sy'n ymwneud â'r Cynllun Preswylio, er ein bod yn nodi bod mwyafrif y dystiolaeth yn awgrymu y gallai llywodraethau Cymru a'r DU fod yn gwneud mwy.

**134.** Rydym yn croesawu'r pecyn o fesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019 i helpu i gynorthwyo dinasyddion yr UE yng Nghymru. At hynny, er ein bod yn cydnabod na fu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â dylunio a gweithredu'r maes polisi hwn sydd heb ei ddatganoli, rydym yn glir bod angen i Lywodraeth Cymru wella'r modd y mae'n rhoi gwybod i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain yn gryfach trwy ddyblu ei hymdrechion i roi cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Ffordd bosibl o gyflawni hyn fyddai cyflwyno cynllun cyfathrebu diwygiedig, sy'n cynnwys negeseuon allweddol ac sydd i'w ledaenu trwy wasanaethau cyhoeddus ee byrddau iechyd lleol, ysgolion a llywodraeth leol.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ei neges o gymorth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau y mae wedi'u darparu i sefydliadau partner trwy Gronfa Bontio'r UE i sicrhau eu bod yn ddigonol i helpu grwpiau agored i niwed, ac eraill, wneud cais i'r Cynllun Preswylio.

**135.** Nodwn mai Cymru sydd â'r nifer isaf o gofrestriadau i'r Cynllun Preswylio o bob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig. At hynny, clywsom nad yw'r negeseuon

[99] Llywodraeth Cymru, 'Cyhoeddi pecyn o gymorth i Ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru', 9 Gorffennaf 2019

o gymorth i ddinasyddion yr UE sy'n preswylio yng Nghymru yn cyrraedd pobl ar lawr gwlad.

**Casgliad 5.** Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU wneud asesiad brys i weld a oes angen ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswylio, a sut i gofrestru.



Bid
Ask
Auto
Shift
GBPUSD M15
1.4505
1.00
1.4508
SL/TP



# Pennod 4:

# Yr effaith ar draws cenhedloedd a rhanbarthau – a oes achos dros fewnfudo rhanbarthol?

Yn y bennod olaf hon, rydym yn trafod rhai o'r materion a'r dadleuon ehangach mewn perthynas â pholisi mewnfudo ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys ystyried a allai Cymru wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

# 4. Yr effaith ar draws cenhedloedd a rhanbarthau – a oes achos dros fewnfudo rhanbarthol?

Yn y bennod olaf hon, rydym yn trafod rhai o'r materion a'r dadleuon ehangach mewn perthynas â pholisi mewnfudo ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys ystyried a allai Cymru wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

## Y Cefndir

**136.** Mae'r newidiadau i fewnfudo a ddaeth yn sgil Brexit wedi sbarduno dadl ehangach ynghylch a oes achos dros amrywio'r polisi mewnfudo yn rhanbarthol ledled y DU.

**137.** Amlygodd yr ymchwil a wnaeth yr Athro Jonathan Portes nifer o faterion mewn perthynas â Chymru a oedd yn wahanol i weddill y DU, neu'n fwy difrifol o'u cymharu â gweddill y DU.

**138.** Fel y soniwyd eisoes, roedd elfen allweddol o'i ymchwil yn ymwneud â newid demograffig a phoblogaeth sy'n heneiddio. Dadleuodd y gallai ymfudo ar lefel llai na'r rhagamcan waethygu'r problemau hyn.[100] Adleisir hyn yn rhywfaint o'r dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid, y manylir arni isod.

**139.** Canfu'r Athro Portes hefyd mai gweithgynhyrchu, gofal cymdeithasol, lletygarwch, iechyd ac addysg yw'r sectorau y mae cynigion y Papur Gwyn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yng Nghymru.

**140.** Ar y cyfan, fodd bynnag, daeth yr Athro Portes i'r casgliad ei bod yn anodd cyflwyno achos dros system ymfudo ranbarthol, gan nad yw ymfudo yng Nghymru yn sylweddol wahanol i weddill y DU.

[100] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Mudo yng Nghymru: effaith newidiadau polisi ôl-Brexit,' Mawrth 2019

## Demograffeg

**141.** Fel y soniwyd uchod, clywsom fod yr heriau sy'n dod yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio yn fwy difrifol yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Tynnodd nifer o'r cyflwyniadau a gawsom sylw at y mater hwn hefyd.[101]

**142.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod twf poblogaeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dibynnu i raddau helaeth ar fewnfudo, ac erbyn 2037 rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru wedi lleihau heb ryw lefel o ymfudo mewnol a / neu ryngwladol. Ychwanegodd y rhagwelir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio yn gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol.[102]

**143.** Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru hwythau at ganfyddiadau Sefydliad Bevan yn eu cyflwyniad, gan ychwanegu hefyd fod poblogaeth ymfudol Cymru yn gyfrannol is na gweddill y DU.[103]

**144.** Dywedodd Conffederasiwn y GIG hefyd fod poblogaeth Cymru yn heneiddio ac yn fwy dibynnol ar ymfudo net, gyda phobl dros 65 oed yn ffurfio'r gyfran fwyaf o'r boblogaeth a bod mwy o bobl yng Nghymru â salwch cyfyngus hirdymor. Cyfeiriodd at y ffaith y rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn cynyddu 232,000 (neu 32 y cant) rhwng 2016 a 2041. Aeth ymlaen i ddadlau ei bod yn bwysig bod system fewnfudo newydd yn cynnwys llais y gweinyddiaethau datganoledig gan fod iddyn nhw gyd-destun gwahanol i un Lloegr a gweddill y DU.[104]

**145.** Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod demograffeg Cymru yn golygu ei bod yn ddibynnol ar fewnfudo i helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen gwneud mwy na gwella tâl ac amodau'r sector i sicrhau'r gweithlu sydd ei angen.[105]

## Effaith economaidd ehangach bosibl

**146.** Maes arall y cyfeiriwyd ato yn adroddiad Portes, ac a amlygwyd yn y dystiolaeth, yw'r effeithiau economaidd posibl pan fydd rhyddid pobl i symud yn dod i ben, a system fewnfudo fwy cyfyng yn dod i rym ar ôl Brexit.

---

[101] FOM01 Sefydliad Bevan

[102] FOM01 Sefydliad Bevan

[103] FOM12 Prifysgolion Cymru

[104] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

[105] FOM04 RCN Cymru

**147.** Dywedodd Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru wrthym fod rhai busnesau yn ystyried adleoli dramor oni allan nhw ddiwallu eu hanghenion cyflogaeth yma, gan arwain at golli swyddi a gostyngiad yn y sylfaen dreth.[106] Fe wnaethon nhw hefyd dynnu sylw at y ffaith bod cwmni gweithgynhyrchu yn Abertawe wedi dweud wrthyn nhw y bydd yn symud dramor os bydd raid.

**148.** Pwysleisiodd Prifysgol Caerdydd yr effaith benodol y gallai unrhyw newidiadau ei chael ar ddinas Caerdydd. Yn ei chyflwyniad, dywedodd y Brifysgol fel a ganlyn:

> "Dadansoddodd astudiaeth yn 2018 gan *Centre for Cities* bwysigrwydd mewnfudwyr yn economïau'r DU, gan nodi bod dinasoedd yn cyfrif am dros ddwy ran o dair o wladolion yr UE nad oeddent o'r DU. Yn hanfodol, nododd yr astudiaeth hefyd bod mewnfudwyr yn arbennig o bwysig yn sectorau addysg tair o ddinasoedd y DU – Caerdydd, Caergrawnt a Rhydychen – lle maent yn cyfrif am 10% o swyddi'r sector honno, a bod hynny o ganlyniad "i rôl prifysgolion yn yr economïau hynny, a'u dibyniaeth ar dalent ryngwladol."[107]

**149.** Yn eu cyflwyniad, trafododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y cysylltiad rhwng mewnfudo a chyflog. Dywedodd y Gymdeithas wrthym fod adroddiad MAC a'r Papur Gwyn yn dadlau y bydd cyfyngu ar allu gweithwyr o'r UE â sgiliau is neu ar gyflogau isel i ymfudo yn gwella rhagolygon gweithwyr brodorol, ond aeth ymlaen i gymharu hyn â chanfyddiadau eraill, gan nodi:

> "However, as recognised in the recent WCPP report, 'Migration in Wales: the impact of post-Brexit policy changes', the empirical evidence set out in the MAC report does not provide much support for these propositions; the research commissioned by the MAC found no clear links between migration and training, and a positive one between migration and productivity, with little to suggest that reductions in migration would result in significant wage rises for low-paid workers. The distributional consequences of reduced immigration are therefore likely to be small, although it is possible that there might be bigger impacts in some sectors. There may also be negative distributional consequences if the reductions in government revenue result in less funding for public services."[108]

[106] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[107] FOM09 Prifysgol Caerdydd

[108] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**150.** Dadleuodd TUC Cymru hefyd na fyddai cynigion y Papur Gwyn yn mynd i'r afael â'r pryderon am gyflogau isel yn y gweithlu ac y byddai, yn hytrach, yn eu gwaethygu trwy roi mwy fyth o bŵer yn nwylo cyflogwyr ecsbloetiol, cynyddu gwahaniaethu a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chynyddu'r prinder mewn swyddi allweddol yn y sector cyhoeddus.[109]

**151.** Yn ei gyflwyniad, pwysleisiodd Sefydliad Bevan yr effaith benodol y gallai newidiadau'r Papur Gwyn ei chael ar sectorau allweddol fel adeiladu, gweithgynhyrchu, twristiaeth, lletygarwch a gofal cymdeithasol.[110]

## Dadleuon ynghylch dulliau gwahanol i ardaloedd gwahanol

**152.** Cawsom nifer o gyflwyniadau a oedd yn cyfeirio at y potensial i greu polisïau mewnfudo gwahanol ar gyfer gwahanol wledydd a rhanbarthau'r DU.

**153.** Mae cynigion y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys rhai mesurau penodol i Gymru i ymgynghori yn eu cylch, gan gynnwys Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL) sy'n benodol i Gymru.

**154.** Cyfeiriodd FSB Cymru at nifer o resymau a fyddai'n ategu'r achos dros gael dulliau mewnfudo gwahanol ar gyfer y gwledydd datganoledig. Roeddent yn cynnwys:

- Anghenion gwahanol: yn nhermau economaidd, mae Cymru yn ddibynnol ar sectorau sy'n cyflogi niferoedd mwy o staff o wledydd yr UE – er enghraifft, ym maes twristiaeth a lletygarwch, amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu.
- Demograffeg: mae gan Gymru boblogaeth hŷn, a rhagwelir y bydd yn dibynnu'n llwyr ar fewnfudo ar gyfer twf ei phoblogaeth yn y dyfodol.
- Cyflogau rhanbarthol gwahanol: mae'r lefelau cyflog yng Nghymru yn is na Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

**155.** Cytunodd Sefydliad Bevan fod achos dros gael polisïau mewnfudo gwahanol a dywedodd iddo ddarganfod bod rhanddeiliaid yn cefnogi hyn i raddau helaeth o ystyried y cysylltiadau cryf â'r meysydd polisi eraill sydd wedi eu datganoli.[111]

[109] FOM14 TUC Cymru

[110] FOM01 Sefydliad Bevan

[111] FOM01 Sefydliad Bevan

Tynnodd y Sefydliad sylw hefyd at rai enghreifftiau rhyngwladol lle mae'r polisi wedi'i ddatganoli i lefel is-wladwriaeth:

> "Stakeholders who took part in our symposium highlighted the regional migration programs in Australia and the Provincial Nominate Program (PNP) in Canada that are implemented alongside the national system and felt that these provides a good model for Wales, because they would allow the Welsh Government to design its own criteria and nominate people to migrate to Wales who may not meet the eligibility criteria under Tier 2, including lower skilled migrants."[112]

**156.** Roedd hefyd yn dadlau:

> "It is important that the Welsh Government continues to push for a system that takes into account the needs of the Welsh economy. It is encouraging that the MAC has suggested that there could be some regional variations and we believe the ability to define its own 'permitted occupations' is crucially important if Wales is to meet the shortages and demands in certain sectors of the economy."[113]

**157.** Cytunodd Grŵp Cynrychiolaeth Llafur Cymru bod achos dros ganiatáu i'r gwledydd datganoledig wneud pethau'n wahanol mewn perthynas â pholisi mewnfudo ar ôl Brexit.[114]

**158.** Dadleuodd Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc fod cael un polisi ymfudo ar gyfer Llundain a Chaerdydd yn annoeth ar y gorau, a dywedodd wrthym y byddai polisi ar wahân ar gyfer Cymru yn adlewyrchu'r ffaith bod gan bob gwlad ddatganoledig ei heriau a'i hanghenion ei hun".[115]

**159.** Dadleuodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei bod yn "hanfodol bod Llywodraeth y DU yn ystyried effaith lawn gadael yr UE ar sector y DU yn gyffredinol yn ogystal â'r goblygiadau "rhanbarthol" amrywiol iawn – yn enwedig mewn meysydd fel diwylliant sy'n gyfrifoldeb datganoledig."[116] Yn benodol, dywedodd Cyngor y Celfyddydau fel a ganlyn:

> "Un o'r heriau y gallai'r sector celfyddydau yng Nghymru ei hwynebu, pe bai cyfyngiadau ar nifer y fisâu a ddyfernir bob blwyddyn, yw sut y gallai

[112] FOM01 Sefydliad Bevan

[113] FOM01 Sefydliad Bevan

[114] FOM02 Grŵp Cynrychiolaeth Llafur Cymru

[115] FOM07 Fforwm Busnes Cymru-Ffrainc

[116] FOM10 Cyngor Celfyddydau Cymru

> hynny gael ei adlewyrchu yn y gwledydd datganoledig a sut i sicrhau bod y dyfarniadau yn cael eu rhannu'n deg yn ddaearyddol."[117]

**160.** Mynegodd SMWCC bryderon y bydd cyflwyno polisi mewnfudo gwahanol yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU yn ychwanegu at y beichiau a'r costau gweinyddol sy'n wynebu busnesau, yn hytrach na gwneud y system yn symlach.[118]

**161.** Mynegodd TUC Cymru bryderon ynghylch cael polisi mewnfudo gwahanol yn y gwledydd datganoledig, gan ddweud:

> "We have concerns about an immigration system that links immigration status to one geographical locality as migrant workers would risk losing their legal status and rights if they travelled to another part of the country, and that a regional immigration system might link some areas to lower pay requirements that could depress pay across the country."[119]

**162.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr angen am Restr Galwedigethau â Phrinder ar wahân yn awgrymu bod achos dros wahaniaethu i ryw raddau, ac efallai na fydd un polisi ar lefel genedlaethol yn briodol yn ymarferol ar gyfer anghenion cenedlaethol na rhanbarthol.[120] Dywedodd hefyd:

> "Given that the effects of Brexit and changes to freedom of movement will vary within and across places there is a need for any future immigration system to better reflect the regional differences across the UK."[121]

## Rhestr Galwedigaethau â Phrinder

**163.** Mae'r Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL) yn rhestr swyddogol o alwedigaethau lle nad oes digon o weithwyr preswyl (gan gynnwys gwladolion yr UE) i lenwi swyddi gwag. Ategir rhestr y DU gan restr ar wahân ar gyfer yr Alban.

**164.** Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid, gan gynnwys FSB Cymru, Sefydliad Bevan, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Prifysgol Caerdydd, a

[117] Ibid.

[118] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[119] FOM14 TUC Cymru

[120] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[121] Ibid.

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, o blaid creu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru.[122]

**165.** Wrth ddadlau yn erbyn creu polisi mewnfudo gwahanol yng Nghymru, dywedodd Conffederasiwn y GIG wrthym y dylid cael cydnabyddiaeth ac adlewyrchiad llawn o anghenion demograffig, cymdeithasol ac economaidd Cymru ac y gellid gwneud hyn trwy Restr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru.[123]

**166.** Dywedodd SMWCC wrthym fod angen cadarnhau sawl peth cyn bwrw ymlaen â SOL ar gyfer Cymru. Roedd y materion hyn yn cynnwys asesu a oes llawer o alwedigaethau â phrinder digon sylweddol i haeddu cael eu cynnwys ar restr Cymru yn unig; a oes camau amgen y gellid eu cymryd i annog pobl yng Nghymru i lenwi'r swyddi lle mae prinder; a phryderon ynghylch unrhyw feichiau a chostau gweinyddol ychwanegol i fusnesau.[124]

**167.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

> "We welcome the UK Government's acceptance of the MAC's recommendation to consider whether the composition of the SOL needs to be different for Wales, as well as the inclusion of many health and social care roles. This could lead to salary thresholds which better reflect the needs of devolved nations."[125]

**168.** Dywedodd FSB Cymru y dylid cael SOL i Gymru, ar sail debyg i'r Alban ac os yw'r trothwy yn aros ar lefel y DU, y gellid defnyddio'r SOL er mwyn lliniaru'r effaith.[126]

**169.** Dywedodd Prifysgol Caerdydd ei bod yn croesawu SOL sy'n benodol i Gymru ond "nad oedd yn debygol o wneud gwahaniaeth dramatig", oherwydd ar gyfer y rhan fwyaf o alwedigaethau, mae'r prinder yn debygol o fod yn debyg ledled y DU.[127]

---

[122] FOM01 Sefydliad Bevan; FOM03 FSB Cymru; FOM04 RCN Cymru; FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru; FOM09 Prifysgol Caerdydd; FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[123] FOM05 Conffederasiwn GIG Cymru

[124] FOM11 Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru

[125] FOM13 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[126] FOM03 FSB Cymru

[127] FOM09 Prifysgol Caerdydd

**170.** Yn ogystal â bod o blaid creu SOL ar gyfer Cymru, roedd Sefydliad Bevan yn awyddus i weld y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo yn cynnwys arbenigwr o Gymru sy'n deall y cyd-destun datganoledig.[128]

## Barn Llywodraeth Cymru

**171.** Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud y byddai'n "edrych ar opsiynau am ddulliau gweithredu gwahanol mewn gwahanol ardaloedd a fyddai'n fwy priodol ar gyfer anghenion a buddiannau Cymru".[129]

**172.** Yn ei phapur ym mis Medi 2019 – "Dyfodol Mwy Disglair i Gymru" – rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylion mwy diweddar am ei hagwedd at ymfudo. Mae o blaid cadw'r rhyddid i symud drwy aros yn yr UE, ond gyda rheolaethau mewnfudo ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella diogelwch cyfreithiol yn erbyn arferion gwaith ecsbloetiol;
- y gallu i symud ymfudwyr o'r UE nad ydynt yn dod o hyd i waith o fewn chwe mis trwy olrhain niferoedd Yswiriant Gwladol, a
- diwygio trosglwyddiadau staff yn y tymor byr ar delerau ac amodau eu gwledydd genedigol i "sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio i danseilio'r rheini yn y wlad sy'n lletya".[130]

## Ein barn ni

**173.** Nodwn y dystiolaeth a ddaeth i law mewn perthynas â heriau demograffig ac anghenion economaidd penodol Cymru. Rydym yn glir bod yn rhaid i bolisi yn y maes hwn yn y dyfodol adlewyrchu'r anghenion hyn, ac y dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i bledio'r achos dros adlewyrchu'r anghenion hyn.

**174.** Nodwn hefyd fod y newidiadau demograffig hyn, yn bennaf poblogaeth sy'n heneiddio, yn debygol o waethygu erbyn i ryddid i symud ddod i ben. Mae hefyd yn wir bod rhai sectorau o'r economi yn debygol o gael eu taro'n galetach erbyn i ryddid i symud ddod i ben nag eraill. Mae'n hanfodol bwysig, felly, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd ar gyfer dulliau gweithredu gwahanol yn y gwledydd datganoledig o ran mewnfudo ar ôl Brexit.

---

[128] FOM01 Sefydliad Bevan

[129] Llywodraeth Cymru, 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl,', 2017

[130] Llywodraeth Cymru, 'Dyfodol Mwy Disglair i Gymru', 26 Medi 2019

**175.** Nid ydym wedi dod i gasgliad pendant ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru bwyso am ragor o reolaeth ar y system fewnfudo yng Nghymru ar ôl Brexit. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, hoffem gydnabod bod gwahaniaethu o'r fath yn digwydd mewn gwledydd eraill ledled y byd, yn fwyaf arbennig Canada ac Awstralia. At hynny, mae'r materion sy'n ymwneud â'r trothwy cyflog arfaethedig, a hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru, o bwys mawr i ni fel Pwyllgor.

**176.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud y byddai'n edrych ar opsiynau am ddulliau gweithredu gwahanol mewn gwahanol ardaloedd ac y byddai'n archwilio'r opsiynau hynny pe byddai Llywodraeth y DU yn cynnig polisi mewnfudo mwy cyfyng ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith archwilio ar bolisi mewnfudo sy'n gweithredu'n wahanol mewn ardaloedd gwahanol ar ôl Brexit, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar y tueddiadau demograffig yn y dyfodol, sy'n cymryd i ystyriaeth lefelau is o ymfudo, a'i effaith bosibl ar economi Cymru.

**177.** Rydym yn croesawu'r cynigion i gyflwyno Rhestr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru ac yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r cynigion hynny. Ar yr un pryd, nodwn, i fod yn effeithiol, bod yn rhaid i unrhyw restr sy'n benodol i Gymru gael ei hategu gan dystiolaeth gadarn sy'n mynd i'r afael â heriau demograffig ac anghenion economaidd penodol Cymru.

**178.** At hynny, nodwn y bydd y mesur penodol hwn ddim ond yn dwyn ffrwyth pan fydd y trothwy cyflog yn agosach at yr enillion canolrifol yng Nghymru.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sefydlu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder ar gyfer Cymru, y gall Llywodraeth Cymru ei diwygio yn unol ag anghenion Cymru.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, wrth ymateb i'r adroddiad hwn, a yw wedi cynnal adolygiad i benderfynu sut y byddai Rhestr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru yn ystyried rhai o anghenion penodol Cymru.

# Atodiad A

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - sesiwn dystiolaeth lafar 13 Mai 2019

| Sesiwn dystiolaeth | Trawsgrifiadau | Senedd.TV |
|---|---|---|
| 1. King's College, Llundain<br>Jonathan Portes | Darllen y trawsgrifiad | Gwyliwch ar Senedd.tv |
| 2. Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus<br>Marley Morris | Darllen y trawsgrifiad | Gwyliwch ar Senedd.tv |
| 3. Sefydliad Bevan<br>Victoria Winckler | Darllen y trawsgrifiad | Gwyliwch ar Senedd.tv |
| 4. The Migration Observatory, Prifysgol Rhydychen<br>Madeline Sumption | Darllen y trawsgrifiad | Gwyliwch ar Senedd.tv |

# Atodiad B

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein.

| Cyfeiriad | Ymatebwyr i'r ymgynghoriad |
|---|---|
| FOM01 | Sefydliad Bevan |
| FOM02 | Grŵp Cynrychiolaeth Llafur Cymru |
| FOM03 | FSB (Ffederasiwn Busnesau Bach) |
| FOM04 | RCN Cymru (Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru) |
| FOM05 | Conffederasiwn GIG Cymru |
| FOM06 | Airbus |
| FOM07 | Fforwm Busnes Cymru Ffrainc Capital Law |
| FOM08 | Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| FOM09 | Prifysgol Caerdydd |
| FOM10 | Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| FOM11 | Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru |
| FOM12 | Prifysgolion Cymru |
| FOM13 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| FOM14 | TUC Cymru (Cyngres yr Undebau Llafur) |

# Atodiad C

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: y goblygiadau i Gymru - sesiwn grŵp ffocws

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol sesiwn grŵp ffocws ddydd Llun 30 Medi 2019 yn Little Man Coffee Caerdydd. Pwrpas y sesiwn oedd rhoi cyfle i wladolion yr UE a sefydliadau partner rannu eu profiadau bywyd, a thrafod sut mae Brexit, Cynllun Setliad yr UE, ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol ar ryddid i symud wedi effeithio arnynt.

Roedd yr adborth a gafwyd yn ystod y grŵp ffocws yn ddienw ac fe'i defnyddiwyd fel tystiolaeth i gefnogi canfyddiadau'r Pwyllgor yn yr adroddiad hwn.

Gweld Crynodeb y Grŵp Ffocws ar-lein.